COMISIWN ELUSENNAU
AR GYFER CYMRU A LLOEGR

# Cwmnïau Elusennol: Erthyglau Cymdeithasu Enghreifftiol

MAWRTH 2012

Fformat newydd Ionawr 2017

# Memorandwm Enghreifftiol ac Erthyglau Cymdeithasu Enghreifftiol ar gyfer Cwmni Elusennol

Mae'n bosibl y bydd angen i elusen fod ar ffurf cwmni os oes perygl y gallai fod ganddi  rwymedigaethau ariannol mawr oherwydd, er enghraifft, disgwylir iddi:

- reoli asedau sylweddol; neu
- gyflogi staff; a/neu
- gyflawni dibenion elusennol sy'n cynnwys risgiau masnachol.

## Canllawiau i'w hystyried cyn dechrau

Efallai y byddai'n ddefnyddiol i ddechrau drwy ddarllen y canllawiau canlynol ar ein gwefan:

- Yr wybodaeth gynhwysfawr o dan *Dechrau elusen*
- Cofrestru fel Elusen (CC21). Bydd y rhestr wirio o gwestiynau yn eich helpu i benderfynu ar y ffordd orau i sefydlu'r elusen. Mae Atodiad A yn crynhoi natur cyfrifoldebau'r rhai sy'n rhedeg yr elusen, fel ymddiriedolwyr elusen ac fel cyfarwyddwyr cwmni (yn y ddogfen hon defnyddiwn y term 'cyfarwyddwyr').
- Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol (CC22). Mae'n rhoi cyngor ymarferol ar sut i gwblhau dogfen lywodraethol yr elusen a'r darpariaethau gwahanol y gall fod eu hangen.
- Ein canllaw Yr Ymddiriedolwr Hanfodol - Yr hyn y mae angen i chi wybod (CC3), sy'n nodi'r pethau sylfaenol y dylai pob ymddiriedolwr eu gwybod.

## Y camau nesaf

1. Cwblhau'r erthyglau cymdeithasu

Pan fyddwch wedi penderfynu gwneud cais i gofrestru fel cwmni elusennol, darllenwch yr erthyglau cymdeithasu a'r canllawiau cysylltiedig yn ofalus.

Mae rhai erthyglau yn cynnwys llefydd gwag y bydd rhaid i chi eu llenwi.

Mae'n bwriadu bod yn ddigon hyblyg i ddelio â'r rhan fwyaf o achosion. Os hoffech chi gynnwys darpariaethau arbennig neu gymhleth sydd heb eu cynnwys ynddo, dylech chi ystyried gofyn i gyfreithiwr am gymorth. Gwnewch unrhyw newidiadau yn glir gan esbonio pam bod angen eu gwneud. Bydd hyn yn ein helpu ni i ystyried eich cais mor gyflym â phosibl. Ni allwn warantu y byddwn yn derbyn pob sefydliad sy'n defnyddio'r erthyglau cymdeithasu enghreifftiol fel un elusennol. Mae'n rhaid i ni ystyried pob cais ar wahân.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ddogfen hon gwnewch yn siŵr eich bod chi wedi llenwi pob un o'r bylchau a dileu unrhyw erthyglau nad ydynt yn briodol.

## Nodiadau

2. Gwneud cais i gofrestru fel cwmni

Bydd rhaid i chi wneud cais i Dŷ'r Cwmnïau i gorffori eich sefydliad. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn anfon tystysgrif gorffori atoch. Am fanylion ewch i wefan Tŷ'r Cwmnïau.

3. Gwneud cais i gofrestru fel elusen

I gofrestru elusen newydd, gwnewch gais ar-lein. (Mae'r deunyddiau gwneud cais ar-lein yn cynnwys Gwneud cais i gofrestru - canllawiau.)

Atodwch y dogfennau canlynol i'ch cais.

- memorandwm cymdeithasu wedi'i lofnodi;
- yr erthyglau cymdeithasu;
- Datganiad yr Ymddiriedolwyr wedi'i lofnodi;
- copi o'ch tystysgrif corffori (wedi'i gyhoeddi gan Dŷ'r Cwmnïau).

Os na allwch atodi'r dogfennau hyn i'ch cais ewch ymlaen i wneud cais ar-lein a byddwn yn anfon cyfarwyddiadau atoch drwy'r e-bost sy'n dangos sut i'w hanfon atom. (Peidiwch ag anfon eich tystysgrif gorffori wreiddiol atom.)

Os na allwch wneud cais ar-lein, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r ddolen o hafan ein gwefan.

4. Faint fydd hi'n cymryd?

Fel rheol gallwn wneud penderfyniad o fewn 15 diwrnod gwaith os yw'n sefydliad:

- sy'n defnyddio ein geiriau enghreifftiol ar gyfer ei amcanion (fel y cânt eu nodi yn Amcanion elusennol enghreifftiol ar ein gwefan);
- dangos bod neu y bydd ei weithgareddau yn cyd-fynd â'r amcanion;
- dangos bod unrhyw fudd preifat yn atodol ac wedi'i reoli'n briodol; ac
- yn defnyddio ein dogfen lywodraethol enghreifftiol.

Bydd angen ystyried ceisiadau eraill yn fwy gofalus ac felly bydd yn cymryd yn hwy (yn enwedig os yw'r dibenion yn newydd a/neu ar ffiniau'r hyn sy'n elusennol).

Sylwch os ydych am gynnwys unrhyw ddarpariaethau arbennig neu gymhleth sydd heb eu cynnwys yn yr erthyglau cymdeithasu enghreifftiol, dylech ystyried gofyn i gyfreithiwr am gymorth. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser arnom i ystyried unrhyw newidiadau arbenigol o'r fath. Mae'n bwysig egluro pa newidiadau rydych yn eu gwneud.

Ni all y Comisiwn warantu y caiff sefydliad arfaethedig sy'n defnyddio dogfen lywodraethol enghreifftiol ei dderbyn fel sefydliad elusennol. Rhaid ystyried pob achos ar wahân.

## Nodiadau

**Mae'r nodiadau esboniadol hyn ar gyfer cyngor ac i gyfeirio atynt yn unig ac nid ydynt yn ffurfio unrhyw ran o destun y Memorandwm Cymdeithasu.**

Mae manylion am ofynion Deddf Cwmnïau 2006 ar gael gan Dŷ'r Cwmnïau **www.companieshouse.gov.uk** a'n gwefan **www.charitycommission.gov.uk**.

Rhowch enw'r cwmni

**Erthygl 1** - Rhowch enw'r cwmni. Yn gyffredinol, gall y Comisiwn dderbyn unrhyw enw ond mae ganddo'r pŵer i gyfeirio bod enwau elusennau cofrestredig yn cael eu newid yn yr amgylchiadau a nodwyd yn adran 42(2) o Ddeddf Elusennau 2011, a esbonnir yn ein canllaw Cofrestru fel Elusen (CC21) a'n Canllaw Gweithredol Enwau elusennau sydd ar gael ar ein gwefan. Yn fras, ni ddylai'r enw beri tramgwydd, neu fod yr union yr un fath (neu'n rhy debyg) i enw unrhyw elusen arall, neu'n debygol o gamarwain y cyhoedd ynghylch ei dibenion, ei gweithgareddau, ei statws neu ei chysylltiadau.

**Erthygl 2** - Mae'r erthyglau yn cynnwys cyfeiriad at ysgrifennydd cwmni. Nid yw'n ofyniad cyfreithiol i gael ysgrifennydd cwmni mwyach. Yn unol â hynny, mae'r cyfeiriadau at ysgrifennydd cwmni yn golygu bod yr elusen yn gallu gweithredu heb un os yw'n dymuno gwneud hynny. Ar wahân i'r diffiniad o 'ysgrifennydd' a 'swyddogion' yn yr erthygl ddehongli hon, mae hefyd cyfeiriadau at yr ysgrifennydd yn yr erthyglau, 41(3) ac erthygl 48.

# CWMNI HEB GYFALAF CYFRANNAU

## Erthyglau Cymdeithasu ar gyfer Cwmni Elusennol

### Erthyglau Cymdeithasu

.....................................................................................................................

.....................................................................................................................

.....................................................................................................................

1 **Enw'r cwmni yw**

.....................................................................................................................

.....................................................................................................................

.....................................................................................................................

(ac yn y ddogfen hon fe'i gelwir yr 'elusen').

### Dehongli

2 Yn yr erthyglau:

ystyr 'cyfeiriad' yw cyfeiriad post neu, at ddibenion cyfathrebu electronig, rhif ffacs, cyfeiriad e-bost neu bost neu rif ffôn ar gyfer derbyn negeseuon testun sydd, ym mhob achos, wedi'i gofrestru ar gyfer yr elusen;

ystyr 'yr erthyglau; yw erthyglau cymdeithasu'r elusen;

ystyr 'yr elusen' yw'r cwmni y bwriedir iddo gael ei reoleiddio gan yr erthyglau;

ystyr 'diwrnodau clir' yng nghyd-destun cyfnod hysbysiad yw cyfnod heb gynnwys:

- y diwrnod pan gafodd yr hysbysiad ei roi neu yr ystyrir ei fod wedi'i roi; a'r
- diwrnod y rhoddir yr hysbysiad ar ei gyfer neu'r diwrnod y daw i rym;

ystyr 'y Comisiwn' yw Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr;

ystyr 'Deddfau Cwmnïau' yw'r Deddfau Cwmnïau (fel y'u diffinnir yn adran 2 o Ddeddf Cwmnïau 2006) cyn belled ag y bont yn gymwys i'r elusen;

ystyr 'y cyfarwyddwyr' yw cyfarwyddwyr yr elusen. Y cyfarwyddwyr yw'r ymddiriedolwyr elusen fel y'u diffinnir gan adran 177 o Ddeddf Elusennau 2011;

mae 'dogfen' yn cynnwys, oni bai y pennir fel arall, unrhyw ddogfen sy'n cael ei hanfon neu ei chyflenwi ar ffurf electronig;

mae gan 'ffurf electronig' yr ystyr a roddir yn adran 1168 o Ddeddf Cwmnïau 2006;

ystyr 'y memorandwm' yw memorandwm cymdeithasu'r elusen;

mae 'swyddogion' yn cynnwys y cyfarwyddwyr a'r ysgrifennydd (os oes);

ystyr 'y sêl' yw sêl gyffredin yr elusen, os oes un ganddi;

ystyr 'ysgrifennydd' yw unrhyw un a benodir i berfformio dyletswyddau ysgrifennydd yr elusen;

ystyr 'y Deyrnas Unedig' yw Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon; a

bydd geiriau sy'n cyfleu un rhyw yn cynnwys y ddau ryw, ac mae'r unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb.

Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae gan eiriau neu ymadroddion sydd wedi'u cynnwys yn yr erthyglau hyn yr un ystyr ag yn y Deddfau Cwmnïau ac eithrio unrhyw addasiad statudol sydd heb fod mewn grym pan ddaw'r cyfansoddiad hwn yn gyfrwymol ar yr elusen.

Ar wahân i'r eithriad a nodwyd yn y paragraff blaenorol mae cyfeiriad at Ddeddf Seneddol yn cynnwys unrhyw addasiad statudol neu ailddeddfiad ohoni sydd mewn grym am y tro.

## Atebolrwydd aelodau

3 Mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i swm heb fod yn fwy na £10, sef y swm y mae pob aelod yn ymrwymo i'w gyfrannu at asedau'r elusen os caiff ei dirwyn i ben tra ei fod/bod yn aelod neu cyn pen blwyddyn ar ôl iddo/iddi beidio â bod yn aelod, ar gyfer:

(1) talu dyledion a rhwymedigaethau'r elusen a gododd cyn iddo neu iddi beidio â bod yn aelod;

(2) talu costau, taliadau a threuliau dirwyn i ben; a

(3) addasu hawliau'r rhai sy'n cyfrannu ymhlith ei gilydd.

## Nodiadau

**Erthygl 4** - Nid yw'n ofynnol i erthyglau cwmni anelusennol gael amcanion. Fodd bynnag, rhaid i erthyglau cwmni elusennol gyfyngu'r cwmni yn benodol i hyrwyddo amcanion elusennol yn unig.

Nodwch i ba ddiben(ion) y ffurfiwyd y cwmni. Rhaid i amcanion elusen gael eu mynegi mewn termau elusennol yn unig. Mae canllawiau ar gael yn ein canllaw Dewis a Pharatoi Dogfen Lywodraethol (CC22). Yr elfennau allweddol i'w cynnwys yw:

- y pwrpas ei hun (e.e. sefydlu a rhedeg ysgol)
- y bobl a all gael budd ac, os yw'n briodol
- unrhyw derfynau daearyddol a all fod eu hangen i ddiffinio'r ardal o fudd. Ni fydd angen gwneud hyn bob tro. Os ydych yn cynnwys ardal o fudd, mae'n arferol i'w diffinio trwy gyfeirio at ardal llywodraeth leol: mae hyn yn cynnig y fantais o fod yn eglur ac yn syml, ond gall greu problemau os yw'r ardal yn cael ei newid neu ei diddymu yn y dyfodol.

Os bydd yr elusen yn gweithredu yn yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon dylech gynnwys y geiriad mewn cromfachau sgwâr i fodloni gofynion y gyfraith elusennau yn y wlad honno/gwledydd hynny, gan ddileu fel y bo angen os yw'r elusen yn gweithredu yn un o'r ddwy wlad.

**Erthygl 5** - Mae'n ddefnyddiol cynnwys y pwerau hyn er mwyn osgoi unrhyw gamddealltwriaeth ynglŷn â natur y pwerau allweddol sydd ar gael i'r elusen a'r amodau y mae'n rhaid eu bodloni wrth ymarfer y pwerau. Mae enghreifftiau o'r pwerau sydd eisoes gan gwmnïau yn cynnwys pŵer i yswirio a phŵer i ddiwygio'r erthyglau cymdeithasu: sylwch, fodd bynnag, mewn rhai achosion gall y pŵer diwygio hwn gael ei ymarfer dim ond gyda'n caniatâd ni ymlaen llaw o dan adran 198 o Ddeddf Elusennau 2011 (gweler ein Canllaw Gweithredol Newid dogfennau llywodraethol: cwmnïau elusennol ar ein gwefan).

**Erthygl 5(1)** - Mae hwn yn darparu pŵer cyffredinol i godi arian trwy amryw helaeth o ddulliau gan gynnwys gwahodd a derbyn rhoddion a chymynroddion. Yr unig gyfyngiad yma yw nid yw'n caniatáu i'r elusen ymgymryd â masnachu parhaol trethadwy at ddiben codi arian. (Caniateir masnachu ar raddfa fach. Mae Tollau Tramor a Chartref EM yn rhoi arweiniad ar sut y caiff mathau gwahanol o fasnachu eu trin o ran treth.) Os yw'ch elusen yn debygol o godi arian trwy fasnachu, mae ein canllaw Ymddiriedolwyr, masnachu a threth (CC35) yn darparu cyngor manwl. Nid yw telerau'r pŵer hwn yn atal masnachu er mwyn cyflawni amcanion yr elusen - er enghraifft, gall elusen addysgol godi ffioedd am y gwasanaethau addysgol a ddarperir.

## Amcanion

4 Mae amcanion yr elusen ('Amcanion') wedi'u cyfyngu'n benodol i'r canlynol:

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

..........................................................................................................

[Ni fydd unrhyw beth yn yr erthyglau yn awdurdodi defnyddio eiddo'r elusen ar gyfer dibenion sydd heb fod yn elusennol yn unol ag adran 7 o Ddeddf Elusennau a Buddsoddiadau Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005 a/neu adran 2 o Ddeddf Elusennau (Gogledd Iwerddon) 2008.]

## Pwerau

5 Mae pŵer gan yr elusen i wneud unrhyw beth yr ystyrir ei fod yn hybu ei Hamcan(ion) neu sy'n gydnaws neu'n atodol i wneud hynny. Yn arbennig, mae pŵer gan yr elusen i:

(1) codi arian. Wrth wneud hynny, ni all yr elusen ymgymryd ag unrhyw weithgaredd masnachu parhaol trethadwy a rhaid iddi gydymffurfio ag unrhyw reoliadau statudol perthnasol;

(2) prynu, cymryd ar brydles neu yn gyfnewid, hurio neu gaffael fel arall unrhyw eiddo a chynnal a chyfarparu'r eiddo i'w ddefnyddio;

(3) gwerthu, gosod ar brydles neu waredu fel arall y cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r elusen yn berchen arno. Wrth ymarfer y pŵer hwn, rhaid i'r elusen gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 117 ac 122 o Ddeddf Elusennau 2011;

(4) benthyca arian a chodi'r cyfan neu unrhyw ran o'r eiddo y mae'r elusen yn berchen arno fel gwarant ar gyfer ad-dalu'r arian a fenthycwyd neu fel gwarant ar gyfer grant neu gyflawni rhwymedigaeth. Rhaid i'r elusen gydymffurfio fel y bo'n briodol ag adrannau 124 - 126 o Ddeddf Elusennau 2011 os yw'n dymuno morgeisio tir;

(5) cydweithredu ag elusennau, cyrff gwirfoddol ac awdurdodau statudol eraill a chyfnewid gwybodaeth a chyngor â hwy;

## Nodiadau

**Erthygl 5(2)** - Mae'r pŵer hwn yn ddefnyddiol os yw'r elusen yn caffael eiddo naill ai i'w ddefnyddio fel adeiladau swyddfa neu'n weithredol (e.e. fel maes chwarae neu safle ysgol). Mae ein canllaw Prynu Tir (CC33) yn cynnig rhagor o arweiniad ar y mater hwn.

**Erthygl 5(3)** - Mae'r pŵer hwn yn golygu bod modd i'r elusen waredu ei heiddo. Mae adrannau 117 - 122 o Ddeddf Elusennau 2011yn gymwys i'r rhan fwyaf o elusennau ac yn mynnu eu bod yn cydymffurfio â rhai amodau er mwyn sicrhau bod eiddo elusen yn cael ei waredu ar y telerau gorau y mae'n rhesymol i'w cael. Mae ein canllaw Gwerthiannau, prydlesi, trosglwyddiadau neu forgeisiau: Yr hyn y mae angen i ymddiriedolwyr wybod am waredu tir elusennau (CC28) yn rhoi mwy o wybodaeth am hyn.

**Erthygl 5(4)** - Mae hwn yn rhoi pŵer penodol i'r ymddiriedolwyr fenthyca. Mae hefyd yn egluro os yw'r pŵer hwn yn cynnwys gwarantu'r benthyciad ar dir yr elusen, rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011. Yn fyr, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr geisio cyngor a darparu rhai datganiadau/ardystiadau pan fyddant yn benthyca arian trwy gyfrwng morgais. Mae ein Canllaw Gweithredol Benthyca a Morgeisiau ar ein gwefan yn rhoi gwybodaeth fanwl am hyn.

**Erthygl 5(9)** - Ni ellir defnyddio'r pŵer hwn i gyflogi cyfarwyddwyr fel staff. Gweler erthygl 7.

**Erthygl 5(10)** - Mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn darparu pwerau buddsoddi eang ac yn mynnu bod yr elusen yn ceisio cyngor ac yn ystyried yr angen i fuddsoddi mewn amryw o fuddsoddiadau gwahanol. Mae ein canllaw Buddsoddi Cronfeydd Elusennol: Egwyddorion Sylfaenol (CC14) yn rhoi rhagor o wybodaeth am fuddsoddiadau elusennau. Argymhellwn yn gryf fod y cyfarwyddwyr yn cofnodi unrhyw bolisi buddsoddi yn ysgrifenedig; mae'n ofynnol iddynt wneud hyn yn ôl y gyfraith os ydynt yn dirprwyo eu swyddogaeth buddsoddi i reolwr buddsoddi. Mae'r pwerau i gyflogi asiantau, enwebeion a cheidwaid yn arbennig o ddefnyddiol pan fydd yr elusen yn dymuno defnyddio rheolwr buddsoddi.

**Erthygl 6** - Defnyddio incwm ac eiddo

Mae **(1)** yn adlewyrchu gofynion y gyfraith elusennol bod rhaid i incwm ac eiddo elusen gael eu defnyddio i hyrwyddo ei hamcanion yn unig ac nid i gynnig budd i'r cyfarwyddwyr elusen (ac eithrio fel y caniateir gan y ddogfen lywodraethol - gweler erthygl 7 - neu bŵer penodol arall).

(6) sefydlu neu gefnogi unrhyw ymddiriedolaethau, cymdeithasau neu sefydliadau elusennol sy'n cael eu ffurfio ar gyfer unrhyw un o'r dibenion elusennol sydd wedi'u cynnwys yn yr Amcanion;

(7) caffael, uno neu lunio unrhyw bartneriaeth neu gyd-fenter ag unrhyw elusen arall;

(8) neilltuo incwm fel cronfa wrth gefn yn erbyn gwariant yn y dyfodol ond dim ond yn unol â pholisi ysgrifenedig ar gronfeydd wrth gefn;

(9) cyflogi a thalu staff fel y bo angen am wneud gwaith yr elusen. Gall yr elusen gyflogi neu dalu cyfarwyddwr dim ond i'r graddau y caniateir iddi wneud hynny gan erthygl 7 ac ar yr amod ei bod yn cydymffurfio â'r amodau yn yr erthygl honno;

(10) i:

- (a) adneuo neu fuddsoddi cronfeydd;
- (b) cyflogi rheolwr codi arian proffesiynol; a
- (c) trefnu i fuddsoddiadau neu eiddo arall yr elusen gael eu dal yn enw enwebai;

yn yr un modd ac yn destun i'r un amodau ag y caniateir i ymddiriedolwyr ymddiriedolaeth ei wneud gan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000;

(11) darparu yswiriant indemniad i'r cyfarwyddwyr yn unol â'r amodau, ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn adran 189 o Ddeddf Elusennau 2011;

(12) talu am gostau ffurfio a chofrestru'r elusen fel cwmni ac fel elusen o gronfeydd yr elusen.

### Defnyddio incwm ac eiddo

6 (1) Defnyddir incwm ac eiddo'r elusen dim ond er mwyn hybu'r Amcanion.

(2)
- (a) Mae hawl gan gyfarwyddwr i gael ei ad-dalu o eiddo'r elusen neu gall dalu o eiddo o'r fath dreuliau rhesymol a dalwyd yn briodol wrth iddo neu iddi weithredu ar ran yr elusen.
- (b) Gall cyfarwyddwr gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr a brynwyd gan yr elusen yn unol â'r amodau, ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn adran 189 o Ddeddf Elusennau 2011;
- (c) Gall cyfarwyddwr dderbyn indemniad gan yr elusen yn yr amgylchiadau a bennwyd yn erthygl 57.
- (ch) Efallai na fydd cyfarwyddwr yn derbyn unrhyw fudd neu dâl arall oni bai ei fod wedi'i awdurdodi gan erthygl 7.

## Nodiadau

Mae dyletswydd ar y cyfarwyddwyr i sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio'n gywir yn unol â'r egwyddor hon.

Mae **(2)** yn amlinellu hawl cyfarwyddwyr i gael costau rhesymol ac mae'n adlewyrchu'r darpariaethau yn Neddf Elusennau 2011 ynglŷn â hawl cyfarwyddwr elusen i gael budd o yswiriant indemniad ymddiriedolwr. Mae wedi'i gynnwys yn yr erthyglau cymdeithasu i roi gwybod i bobl sy'n ymwneud â'r elusen.

**Erthygl 7** - Mae cyfarwyddwyr o dan ddyletswydd benodol i osgoi sefyllfa lle y mae ganddynt, neu y gall fod ganddynt, fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n gwrthdaro, neu a all wrthdaro, â buddiannau'r cwmni (gweler adran 175(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006). Gall y ddyletswydd hon gael ei haddasu o ran gwrthdaro buddiannau sy'n codi mewn perthynas â thrafodiad neu drefniadau gyda'r cwmni os yw hyn wedi'i ganiatáu gan erthyglau cymdeithasu'r cwmni (aran 175(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006).

Os yw budd wedi'i awdurdodi gan orchymyn y Llys neu'r Comisiwn Elusennau, nid yw'r ddyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau yn codi (adran 105(9) o Ddeddf Elusennau 2011).

Yn ogystal, gall awdurdodiad gael ei roi gan y cyfarwyddwyr sydd heb unrhyw wrthdaro buddiannau ar gyfer gwrthdaro buddiannau os yw cyfansoddiad y cwmni yn cynnwys darpariaeth sy'n eu galluogi i ddarparu awdurdodiad o'r fath (adran 175(5) o Ddeddf Cwmnïau 2006).

Mae **Erthygl 7** yn darparu'r strwythur angenrheidiol i'r holl fuddiannau naill ai gael eu hawdurdodi'n benodol gan yr erthyglau o fewn telerau adran 175(3) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel yr addaswyd gan adran 181 ar gyfer cwmnïau elusennol) neu gael eu hawdurdodi gan y Comisiwn er mwyn i'r ddyletswydd yn adran 175(1) o Ddeddf Cwmnïau 2006 beidio â bod yn gymwys. Yn ogystal, oherwydd dyletswydd benodol adran 175 o Ddeddf Cwmnïau 2006, mae peth ddarpariaeth wedi cael ei gwneud ar gyfer gwrthdaro dyletswyddau os oes dyletswydd o deyrngarwch gan y cyfarwyddwr i sefydliad arall ond ym marn y cyfarwyddwyr sydd heb wrthdaro buddiannau, mae er lles yr elusen i'r cyfarwyddwr hwnnw barhau fel cyfarwyddwr. Fe welwch y ddarpariaeth hon yn erthygl 9.

(3) Yn amodol ar erthygl 7, mae'n bosib na fydd unrhyw incwm neu eiddo'r elusen yn cael ei dalu neu ei drosglwyddo'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy gyfrwng bonws difidend neu fel arall drwy gyfrwng elw i unrhyw aelod o'r elusen. Nid yw hyn yn atal aelod nad yw hefyd yn gyfarwyddwr rhag cael:

(a) budd gan yr elusen yn ei rinwedd fel buddiolwr yr elusen

(b) tâl rhesymol a phriodol am unrhyw nwyddau neu wasanaethau a gyflenwir i'r elusen.

## Buddion a thaliadau i gyfarwyddwyr elusen ac unigolion cysylltiedig

7 (1) **Darpariaethau cyffredinol**

Ni all unrhyw gyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig:

(a) prynu unrhyw nwyddau neu wasanaethau gan yr elusen ar delerau sy'n well na'r rhai sy'n gymwys i aelodau'r cyhoedd;

(b) gwerthu nwyddau, gwasanaethau neu unrhyw fudd mewn tir i'r elusen;

(c) cael ei gyflogi gan yr elusen, neu dderbyn unrhyw dâl gan yr elusen;

(ch) cael unrhyw fudd ariannol arall gan yr elusen;

oni bai bod y taliad wedi'i ganiatáu gan is-gymal (2) o'r erthygl hon, neu wedi'i awdurdodi gan y llys neu gan y Comisiwn Elusennau.

Yn yr erthygl hon ystyr 'budd ariannol' yw budd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd naill ai'n arian neu sydd â gwerth ariannol.

### Cwmpas a phwerau sy'n caniatáu buddion cyfarwyddwyr neu unigolion cysylltiedig

(2) (a) Gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig dderbyn budd o'r elusen yn rhinwedd buddiolwr yr elusen ar yr amod nad yw'r mwyafrif o'r cyfarwyddwyr yn cael budd yn y modd hwn.

(b) Gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig arwyddo contract ar gyfer cyflenwi gwasanaethau, neu nwyddau sy'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â darparu gwasanaethau, i'r elusen lle y caniateir hynny yn unol â'r amodau yn adrannau 185 ac 186 o Ddeddf Elusennau 2011, ac yn ddarostyngedig i'r amodau hynny.

(c) Yn amodol ar is-gymal 3 yr erthygl hon gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig roi nwyddau i'r elusen nad ydynt yn cael eu cyflenwi mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir i'r elusen gan y cyfarwyddwr neu'r unigolyn cysylltiedig.

## Nodiadau

Buddion a thaliadau i gyfarwyddwyr elusen ac unigolion cysylltiedig - Gall cyfarwyddwyr elusen gael budd o'u helusen dim ond os oes awdurdod cyfreithiol penodol ganddynt i wneud hynny (megis cymal yn yr erthyglau cymdeithasu). Mae'r cyfyngiad hwn yn cynnwys pobl sydd â chysylltiad agos â chyfarwyddwr ('unigolion cysylltiedig' - mae'r term hwn wedi'i ddiffinio yn erthygl 61 Dehongli). Mae'r erthygl hon yn egluro'r cyfyngiadau sy'n gymwys i'r cyfarwyddwyr elusen. Hyd yn oed os yw cyfarwyddwyr wedi'u caniatáu i gael budd o'r elusen, rhaid i hyn ddigwydd dim os yw'r budd er lles yr elusen. Mae ein canllaw Treuliau a thaliadau ymddiriedolwyr (CC11) yn rhoi mwy o wybodaeth am fuddiannau cyfarwyddwyr.

Mae'r erthygl hon yn caniatáu i leiafrif o'r cyfarwyddwyr elusen neu unigolion cysylltiedig gael taliadau a buddion eraill mewn rhai achosion (megis ar gyfer nwyddau a gwasanaethau y maen nhw'n eu cyflenwi i'r elusen), yn amodol ar y rheolaethau a nodwyd. Mae'r dewis hefyd yn caniatáu mathau eraill o fudd cyfarwyddwyr, yn amodol ar gydsyniad blaenorol y Comisiwn.

**Erthygl 7(1)(a)** - Nid yw'n atal cyfarwyddwr rhag prynu neu brydlesu tir o'r elusen: fodd bynnag, bydd rhaid cael caniatâd y Comisiwn o dan adran 117 o Ddeddf Elusennau 2011 ar gyfer trafodion o'r fath. Rhaid i unrhyw fudd ariannol wedi'i awdurdodi gan yr erthygl hon ddod o fewn y diffiniad a bennwyd.

**Erthygl 7(2)(a)** - Os bydd eich elusen yn cynnig budd i'r holl drigolion lleol mewn ardal ddaearyddol arbennig efallai yr hoffech chi roi'r geiriau canlynol yn ei le: 'Gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig gael budd gan yr elusen fel buddiolwr ar yr amod ei fod ar gael yn gyffredinol i fuddiolwyr yr elusen.'

**Erthygl 7(2)(ch) -** Dylai'r elusen gofnodi swm a thelerau benthyciad y cyfarwyddwr neu'r unigolyn cysylltiedig.

Ni all elusennau sydd eisoes yn bod mabwysiadu'r pwerau hyn heb awdurdod y Comisiwn Elusennau. Nid yw un o'r darpariaethau hyn yn caniatáu i'r cyfarwyddwyr dderbyn tâl am weithredu fel cyfarwyddwr.

(ch) Gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig dderbyn llog ar arian a fenthycwyd i'r elusen ar gyfradd resymol a phriodol nad yw'n fwy na chyfradd banc Banc Lloegr (a elwir hefyd yn gyfradd sylfaenol.

(d) Gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig gael rhent am adeiladau a osodir gan y cyfarwyddwr neu'r unigolyn cysylltiedig â'r elusen. Mae'n rhaid i swm y rhent a thelerau eraill y brydles fod yn rhesymol ac yn briodol. Mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr dan sylw fod yn absennol o unrhyw gyfarfod lle mae cynnig o'r fath neu'r rhent neu delerau eraill y brydles yn cael eu trafod.

(dd) Gall cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig gymryd rhan mewn masnachu a gweithgareddau codi arian arferol yr elusen ar yr un telerau ag aelodau'r cyhoedd.

**Taliad am gyflenwi nwyddau yn unig - rheolaethau**

(3) Gall yr elusen a'i chyfarwyddwyr ddibynnu ar yr awdurdod a ddarperir gan is-gymal (2)(c) o'r erthygl hon dim ond os yw pob un o'r amodau canlynol wedi'u bodloni:

(a) Mae swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau wedi'i bennu mewn cytundeb ysgrifenedig rhwng yr elusen neu ei chyfarwyddwyr (yn ôl yr achos) a'r cyfarwyddwr neu'r unigolyn cysylltiedig sy'n cyflenwi'r nwyddau ('y cyflenwr') ac o dan y cytundeb bydd y cyflenwr yn cyflenwi'r nwyddau dan sylw i'r elusen neu ar ei rhan.

(b) Nid yw swm neu uchafswm y taliad am y nwyddau yn fwy na'r hyn sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau ar gyfer cyflenwi'r nwyddau dan sylw.

(c) Mae'r cyfarwyddwyr eraill yn fodlon ei fod er lles gorau'r elusen i arwyddo contract gyda'r cyflenwr yn hytrach na rhywun sydd heb fod yn gyfarwyddwr neu'n unigolyn cysylltiedig. Wrth gyrraedd y penderfyniad hwnnw mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr gydbwyso manteision arwyddo contract gyda chyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig yn erbyn anfanteision gwneud hynny.

(ch) Mae'r cyflenwr yn absennol o ran o unrhyw gyfarfod sy'n trafod y cynnig i arwyddo contract neu drefniadau ag ef neu hi neu mewn perthynas â chyflenwi nwyddau i'r elusen.

(d) Nid yw'r cyflenwr yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nid yw'n cael ei gyfrif wrth gyfrifo a yw cworwm y cyfarwyddwyr yn bresennol yn y cyfarfod.

(dd) Mae'r rheswm dros eu penderfyniad yn cael ei gofnodi gan y cyfarwyddwyr yn y llyfr cofnodion.

(e) Nid yw mwyafrif o'r cyfarwyddwyr sydd yn eu swyddi yn derbyn tâl neu daliadau wedi'u hawdurdodi gan erthygl 7.

## Nodiadau

(4) Yn is-gymalau (2) a (3) yr erthygl hon:

(a) mae 'elusen' yn cynnwys unrhyw gwmni lle mae'r elusen yn:

(i) dal mwy na 50% o'r cyfranddaliadau; neu

(ii) rheoli mwy na 50% o'r hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â'r cyfranddaliadau; neu

(iii) cael yr hawl i benodi un neu ragor o'r cyfarwyddwyr i fwrdd y cwmni.

(b) mae 'unigolyn cysylltiedig' yn cynnwys unrhyw un o fewn y diffiniad yn erthygl 61 'Dehongli'.

Mae **Erthygl 8** yn rhoi dyletswydd ar y cyfarwyddwyr i ddatgan budd mewn unrhyw drafodiad yr elusen a bod yn absennol o unrhyw drafodaeth lle y gallai fod gwrthdaro rhwng eu buddiannau personol a buddiannau'r elusen. Byddai hyn yn cynnwys, er enghraifft, trafodaethau am yr angen i ddarparu gwasanaeth arbennig y gallai fod diddordeb gan un o'r cyfarwyddwyr ei gyflenwi (er yn yr enghraifft hon byddai telerau adran 185 o Ddeddf Elusennau 2011 eisoes yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r cyfarwyddwr fod yn absennol). Daeth dyletswyddau statudol i ddatgan unrhyw fuddiannau i rym ar 1 Hydref 2008 (adrannau 177 a 182 o Ddeddf Cwmnïau 2006).

## Datganiad o fuddiannau cyfarwyddwyr

8 Rhaid i gyfarwyddwr ddatgan natur a graddfa unrhyw fudd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, sydd ganddo neu ganddi mewn trafodiad neu drefn arfaethedig â'r elusen neu mewn unrhyw drafodiad neu drefn a lofnodwyd gan yr elusen oedd heb gael ei ddatgan cyn hyn. Rhaid i gyfarwyddwr fod yn absennol o unrhyw drafodaethau'r cyfarwyddwyr elusen lle mae'n bosibl y bydd gwrthdaro yn codi rhwng ei ddyletswydd i weithredu er lles yr elusen yn unig ac unrhyw fudd personol (gan gynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw fudd ariannol personol).

**Erthygl 9** - Mae'r erthygl hon yn caniatáu i gyfarwyddwyr sydd heb wrthdaro buddiannau i awdurdodi gwrthdaro buddiannau sy'n codi o ddyletswydd o deyrngarwch sydd gan gyfarwyddwr i sefydliad neu rywun arall ar yr amod nad oes unrhyw fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol o unrhyw natur yn cael ei dderbyn gan y cyfarwyddwr dan sylw neu gan unigolyn cysylltiedig. Mae gweithdrefn o'r fath yn cael ei ganiatáu gan adran 175(4) a (5) o Ddeddf Cwmnïau 2006 (fel yr addaswyd ar gyfer cwmnïau elusennol gan adran 181) os yw'r ddarpariaeth yn cael ei gwneud amdano yn yr erthyglau. Mae'r Comisiwn yn ystyried y dylai gweithdrefn o'r fath gael ei chyfyngu i wrthdaro sy'n codi o ddyletswydd teyrngarwch i sefydliad neu rywun arall os nad oes unrhyw fudd uniongyrchol neu anuniongyrchol o ba bynnag natur i'r cyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig. Mewn amgylchiadau eraill sy'n cynnwys sefyllfa sy'n arwain at wrthdaro buddiannau ar ran cyfarwyddwr, gall y Comisiwn awdurdodi'r cyfarwyddwr i weithredu er gwaetha'r gwrthdaro os yw'n fodlon y byddai hynny er lles yr elusen (adran 105 o Ddeddf Elusennau 2011).

## Gwrthdaro buddiannau a gwrthdaro teyrngarwch

9 (1) Os yw gwrthdaro buddiannau'n codi i gyfarwyddwr oherwydd dyletswydd o deyrngarwch i sefydliad neu unigolyn arall ac nid yw'r gwrthdaro wedi'i awdurdod drwy rinwedd unrhyw ddarpariaeth arall yn yr erthyglau, gall y cyfarwyddwyr sydd heb unrhyw wrthdaro buddiannau awdurdodi gwrthdaro buddiannau o'r fath os yw'r amodau canlynol yn gymwys:

(a) mae'r cyfarwyddwr sydd â gwrthdaro buddiannau yn absennol o ran o'r cyfarfod lle mae trafodaeth am unrhyw drefn neu drafodiad sy'n effeithio ar y sefydliad neu'r unigolyn arall;

(b) nid yw'r cyfarwyddwr sydd â gwrthdaro buddiannau yn pleidleisio ar unrhyw fater o'r fath ac nid yw'n cael ei gyfrif wrth ystyried a yw cworwm y cyfarwyddwyr yn bresennol yn y cyfarfod; ac

(c) ym marn y cyfarwyddwyr sydd heb unrhyw wrthdaro buddiannau, mae er lles yr elusen i awdurdodi'r gwrthdaro buddiannau yn yr amgylchiadau dan sylw.

(2) Yn yr erthygl hon mae gwrthdaro buddiannau sy'n codi oherwydd dyletswydd o deyrngarwch i sefydliad neu unigolyn arall dim ond yn cyfeirio at wrthdaro o'r fath nad yw'n cynnwys budd uniongyrchol neu anuniongyrchol o unrhyw natur i gyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig.

## Nodiadau

**Erthygl 10(5)** - Mae'n bwysig iawn cadw'r gofrestr aelodau yn gyfoes er mwyn gweinyddu'r elusen yn dda: gall methu â gwneud hyn achosi nifer o broblemau, gan gynnwys anawsterau difrifol wrth alw cyfarfodydd blynyddol neu gyffredinol. Dylid cofio hefyd bod adran 116 o Ddeddf Cwmnïau 2006 yn nodi rhai gofynion sy'n mynnu bod y gofrestr ar gael i aelodau'r elusen ac i'r cyhoedd.

## Aelodau

10 (1) Llofnodwyr y memorandwm yw aelodau cyntaf yr elusen.

(2) Mae aelodaeth yn agored i unigolion neu sefydliadau eraill sydd:

(a) yn gwneud cais i'r elusen yn y ffurf a ofynnir gan y cyfarwyddwyr; a

(b) yn cael eu cymeradwyo gan y cyfarwyddwyr.

(3) (a) Gall y cyfarwyddwyr wrthod cais am aelodaeth, gan weithredu mewn ffordd resymol a phriodol, dim ond os ydynt o'r farn y byddai er lles gorau'r elusen i wrthod y cais.

(b) Rhaid i'r cyfarwyddwyr ysgrifennu at y ceisydd gan roi'r rhesymau dros wrthod y cais cyn pen un diwrnod ar hugain o wneud y penderfyniad.

(c) Rhaid i'r cyfarwyddwyr ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig y gall y ceisydd eu gwneud am y penderfyniad. Ar ôl ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig mae'n rhaid i'r cyfarwyddwyr ysgrifennu at y ceisydd i'w hysbysu am eu penderfyniad, ond bydd y penderfyniad yn derfynol.

(4) Nid oes modd trosglwyddo aelodaeth.

(5) Rhaid i'r cyfarwyddwyr gadw cofrestr o enwau a chyfeiriadau'r aelodau.

## Dosbarthiadau o aelodaeth

11 (1) Gall y cyfarwyddwyr sefydlu dosbarthiadau o aelodaeth gyda hawliau a rhwymedigaethau gwahanol a byddant yn cofnodi'r hawliau a'r rhwymedigaethau yn y gofrestr aelodau.

(2) Ni all y cyfarwyddwyr, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, newid yr hawliau neu'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dosbarth o aelodaeth.

(3) Gall yr hawliau sy'n gysylltiedig â dosbarth o aelodaeth gael eu hamrywio dim ond:

(a) os yw tri chwarter o'r aelodau yn y dosbarth hwnnw yn rhoi eu caniatâd ysgrifenedig i'r amrywiad; neu

(b) os yw cynnig arbennig yn cael ei basio mewn cyfarfod cyffredinol ar wahân o aelodau'r dosbarth hwnnw sy'n cytuno â'r amrywiad.

(4) Bydd y darpariaethau yn yr erthyglau ynghylch cyfarfodydd cyffredinol yn gymwys i unrhyw gyfarfod sy'n ymwneud ag amrywio hawliau unrhyw ddosbarth o aelodau.

## Nodiadau

**Erthygl 13** - Darparwn arweiniad ar gyfarfodydd yn Elusennau a Chyfarfodydd (CC48), wedi'i gynhyrchu mewn cydweithrediad ag ICSA (Sefydliad Ysgrifenyddion a Gweinyddwyr Siartredig). Mae'r erthygl hon yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol. Fodd bynnag, nid yw cyfarfod cyffredinol blynyddol yn ofyniad cyfreithiol a gellir diwygio'r erthygl hon os yw'n briodol. Os nad yw unrhyw ddarpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol, bydd angen gwneud diwygiadau dilynol i erthyglau 15(1)(a), 15(3), 32, 33(2) a 37(2).

**Erthygl 15** - Mae'r erthygl hon yn darparu ar gyfer rhoi rhybudd o 21 diwrnod ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw i basio penderfyniad arbennig. Mae'r unig ofyniad cyfreithiol ar gyfer rhybudd o gyfarfodydd cyffredinol cwmni preifat yn pennu rhybudd o 14 diwrnod o leiaf. Yn unol â hynny, gellir defnyddio'r ffigur hwn os tybir ei fod yn briodol.

Mae angen i rybudd o gyfarfod cyffredinol gynnwys datganiad sy'n pennu hawliau aelodau i benodi dirprwy (adran 325 o Ddeddf Cwmnïau 2006).

## Terfynu aelodaeth

12 Mae aelodaeth yn cael ei therfynu:

(1) os yw'r aelod yn marw neu, yn achos sefydliad, os yw'n peidio â bodoli;

(2) os yw'r aelod yn ymddiswyddo trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i'r elusen oni bai, ar ôl ymddiswyddo, byddai llai na dau aelod;

(3) os yw unrhyw swm y mae'r elusen yn aros i'r aelod ei dalu heb gael ei dalu yn llawn o fewn chwe mis o'r dyddiad y mae'n daladwy arno

(4) os yw aelodaeth yr aelod yn cael ei therfynu trwy benderfyniad y cyfarwyddwyr ei fod er lles gorau'r elusen i derfynu ei aelodaeth. Gall penderfyniad i derfynu aelodaeth unrhyw aelod gael ei basio dim ond:

(a) os yw'r aelod wedi cael o leiaf un diwrnod ar hugain o hysbysiad ysgrifenedig o gyfarfod y cyfarwyddwyr lle y caiff y cynnig ei gyflwyno a'r rhesymau pam y mae'n cael ei gynnig;

(b) os yw'r aelod neu, yn ôl dewis yr aelod, gynrychiolydd yr aelod (nad oes rhaid iddo neu iddi fod yn aelod o'r elusen) wedi cael caniatâd i gyflwyno sylwadau yn y cyfarfod.

## Cyfarfodydd cyffredinol

13 (1) Rhaid i'r elusen gynnal ei chyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf cyn pen deunaw mis ar ôl ei dyddiad corffori.

(2) Rhaid cynnal cyfarfod cyffredinol blynyddol ym mhob blwyddyn ddilynol ac ni all mwy na phymtheg mis fynd heibio rhwng cyfarfodydd cyffredinol blynyddol olynol.

14 Gall y cyfarwyddwyr alw cyfarfod cyffredinol unrhyw bryd.

## Rhybudd i gynnal cyfarfodydd cyffredinol

15 (1) Y cyfnodau lleiaf o rybudd sy'n ofynnol i gynnal cyfarfod cyffredinol yr elusen yw:

(a) un diwrnod ar hugain clir ar gyfer cyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod cyffredinol sy'n cael ei alw i basio cynnig arbennig;

(b) pedwar diwrnod ar ddeg clir ar gyfer pob cyfarfod cyffredinol arall.

(2) Gall cyfarfod cyffredinol gael ei alw drwy roi llai o rybudd os yw'r mwyafrif o'r aelodau sydd â hawl i fod yn bresennol a phleidleisio yn y cyfarfod yn cytuno ar hynny, sef mwyafrif nad ydynt, gyda'i gilydd, yn dal llai na 90 y cant o gyfanswm yr hawliau pleidleisio.

## Nodiadau

**Erthygl 17(2)** - Nodwch y ffigur ar gyfer y cworwm. Dylid bod yn ofalus wrth osod hwn. Os yw'n rhy uchel, gall unrhyw absenoldebau ei gwneud hi'n anodd cynnal cyfarfod dilys. Os yw'n rhy isel, gallai lleiafrif bach gael dylanwad afresymol. Sylwch fod erthygl 18 yn disgrifio'r drefn ar gyfer delio â chyfarfodydd heb gworwm.

**Erthygl 18(3)** - Sylwch fod y ddarpariaeth hon yn caniatáu i'r cyfarfod a aildrefnwyd fynd rhagddo heb fod cworwm yn bresennol cyn pen 15 munud o'r amser cychwyn a drefnwyd. Mae hefyd yn golygu y bydd nifer yr aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy 15 munud ar ôl yr amser a drefnwyd i'r cyfarfod gychwyn yn ffurfio'r cworwm os na lwyddir i gael y cworwm sy'n ofynnol yn erthygl 17(2).

(3) Rhaid i'r rhybudd nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a natur gyffredinol y busnes sydd i'w drafod. Os yw'r cyfarfod yn gyfarfod cyffredinol blynyddol, rhaid i'r rhybudd nodi hynny. Rhaid i'r rhybudd gynnwys datganiad hefyd sy'n pennu hawl aelodau i benodi dirprwy o dan adran 324 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac erthygl 22.

(4) Rhaid rhoi rhybudd hefyd i bob aelod ac i'r cyfarwyddwyr a'r archwilwyr.

16 Ni fydd gweithrediadau mewn cyfarfod yn cael eu hannilysu oherwydd nid oedd unigolyn a oedd â hawl i gael rhybudd o'r cyfarfod heb dderbyn rhybudd oherwydd bod yr elusen wedi'i hepgor ar gam.

### Gweithrediadau mewn cyfarfodydd cyffredinol

17 (1) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai bod cworwm yn bresennol.

(2) Cworwm yw:

(a) [ ] o aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy ac sydd â hawl i bleidleisio ar y busnes sydd i'w drafod yn y cyfarfod; neu

(b) un rhan o ddeg o gyfanswm yr aelodaeth ar y pryd

p'un bynnag yw'r mwyaf.

(3) Bydd cynrychiolydd awdurdodedig aelod-sefydliad yn cael ei gyfrif yn y cworwm.

18 (1) Os:

(a) nad yw cworwm yn bresennol cyn pen hanner awr o'r amser a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod; neu

(b) mae cworwm yn peidio â bod yn bresennol yn ystod y cyfarfod;

caiff y cyfarfod ei ohirio a bydd y cyfarwyddwyr yn pennu amser a lleoliad arall ar gyfer y cyfarfod.

(2) Rhaid i'r cyfarwyddwyr ailgynnull y cyfarfod a rhaid iddynt roi o leiaf saith diwrnod clir o rybudd ar gyfer y cyfarfod a ailgynullwyd gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

(3) Os nad yw cworwm yn bresennol yn y cyfarfod a ailgynullwyd cyn pen pymtheg munud o'r amser a drefnwyd ar gyfer dechrau'r cyfarfod, bydd yr aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy y pryd hynny yn ffurfio cworwm ar gyfer y cyfarfod hwnnw.

19 (1) Caiff cyfarfodydd cyffredinol eu cadeirio gan y sawl sydd wedi cael ei benodi i gadeirio cyfarfodydd y cyfarwyddwyr.

## Nodiadau

(2) Os nad oes unigolyn o'r fath neu os nad yw ef neu hi yn bresennol cyn pen pymtheg munud o'r amser a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod, bydd cyfarwyddwr a enwebir gan y cyfarwyddwyr yn cadeirio'r cyfarfod.

(3) Os mai dim ond un cyfarwyddwr sy'n bresennol ac yn barod i weithredu, bydd ef neu hi yn cadeirio'r cyfarfod.

(4) Os nad yw cyfarwyddwr yn bresennol ac yn barod i gadeirio'r cyfarfod cyn pen pymtheg munud ar ôl yr amser a drefnwyd ar gyfer ei gynnal, rhaid i'r aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy ac sydd â hawl i bleidleisio ddewis un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod.

**Erthygl 20** - Pŵer diamod yw hwn i'r aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy ohirio cyfarfod gyda chworwm. Mae hyn yn wahanol i ddarpariaethau gohirio erthygl 18. Nid yw'r rhain yn ddiamod a rhaid eu defnyddio pan nad oes cworwm mewn cyfarfod cyffredinol.

20 (1) Gall yr aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy yn y cyfarfod benderfynu drwy gynnig cyffredin i ohirio'r cyfarfod.

(2) Rhaid i'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod benderfynu dyddiad, amser a lleoliad ar gyfer ailgynnull y cyfarfod oni bai fod y manylion hynny wedi'u pennu yn y penderfyniad.

(3) Ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod mewn cyfarfod a ailgynullwyd oni bai y byddai wedi bod modd ei drafod yn briodol yn y cyfarfod pe na fyddai wedi cael ei ohirio.

(4) Os yw cyfarfod yn cael ei ohirio gan benderfyniad yr aelodau am fwy na saith diwrnod, bydd rhybudd o saith diwrnod clir o leiaf yn cael ei roi ar gyfer y cyfarfod a ailgynlluniwyd gan nodi dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod.

**Erthygl 21** - Mae hyn yn disgrifio sut y gellir pleidleisio. Mae cyfrif pleidleisiau yn golygu cyfrif yn ffurfiol nifer y pleidleisiau ar gynnig. Gall fod yn ddefnyddiol pan nad yw pleidleisio trwy godi llaw yn bendant: mae hefyd yn ddoeth pan fydd pleidleisiau rhai categorïau o aelodau yn cyfrif am fwy na phleidleisiau aelodau eraill ac mae pryder na fyddai hyn yn cael ei gydnabod mewn pleidlais trwy godi llaw lle mae'r canlyniad yn agos.

21 (1) Bydd unrhyw bleidlais mewn cyfarfod yn cael ei phenderfynu trwy godi llaw oni bai bod cais i gyfrif pleidleisiau cyn cyhoeddi, neu pan gyhoeddir y canlyniad, yn cael ei wneud gan:

(a) y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod; neu

(b) o leiaf dau aelod sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy ac sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod; neu

(c) gan aelod neu aelodau sy'n bresennol yn bersonol neu drwy ddirprwy sy'n cynrychioli dim llai nag un rhan o ddeg o gyfanswm hawliau pleidleisio'r holl aelodau sydd â'r hawl i bleidleisio yn y cyfarfod.

(2) (a) Bydd canlyniad y bleidlais a gyhoeddir gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn derfynol oni bai bod galw am gyfrif pleidleisiau.

(b) Rhaid cofnodi canlyniad y bleidlais yng nghofnodion yr elusen ond nid oes rhaid cofnodi nifer neu gyfran y pleidleisiau.

(3) (a) Gall y cais i gyfrif pleidleisiau gael ei dynnu'n ôl, cyn cyfrif y pleidleisiau, ond dim ond gyda chaniatâd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod.

(b) Os yw'r cais i gyfrif pleidleisiau yn cael ei dynnu'n ôl ni fydd hyn yn annilysu canlyniad y bleidlais trwy godi llaw a gyhoeddwyd cyn i'r cais gael ei wneud.

(4) (a) Rhaid i'r sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod ddatgan sut y caiff y pleidleisiau eu cyfrif. Gall benodi archwilwyr (nad oes rhaid iddynt fod yn aelodau) a all drefnu amser a lleoliad ar gyfer cyhoeddi canlyniadau'r cyfrif pleidleisiau.

(b) Caiff canlyniad y cyfrif pleidleisiau ei ystyried yn benderfyniad y cyfarfod lle y gwneir cais i gyfrif pleidleisiau.

(5) (a) Os oes cais i gyfrif pleidleisiau ar gyfer ethol unigolyn i gadeirio cyfarfod neu ar gwestiwn o ohirio'r cyfarfod, rhaid cyfrif y pleidleisiau ar unwaith.

(b) Os oes cais i gyfrif pleidleisiau ar unrhyw gwestiwn arall rhaid gwneud hyn naill ai ar unwaith neu ar amser ac mewn lleoliad a benderfynir gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod.

**Erthygl 21(5)(c)** - Os penderfynir bod pôl yn cael ei gynnal yn yr amgylchiadau hyn ar ôl cyfarfod cyffredinol, yr holl aelodau'r elusen yn cael eu hawl i bleidleisio.

(c) Rhaid cyfrif pleidleisiau cyn pen deg diwrnod ar hugain ar ôl derbyn y cais i wneud hyn.

(ch) Os nad yw pleidleisiau'n cael eu cyfrif ar unwaith caiff o leiaf saith diwrnod clir o hysbysiad ei roi gan nodi amser a lleoliad ar gyfer cyfrif pleidleisiau.

(d) Os oes cais i gyfrif pleidleisiau gall y cyfarfod barhau i ddelio ag unrhyw fusnes arall a all gael ei drafod yn y cyfarfod.

**Erthygl 22** - Mae'n gwneud darpariaeth ar gyfer pleidleisio drwy ddirprwy. Mae hawl gyfreithiol gan aelodau cwmni i benodi dirprwyon o dan adran 324 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Rhaid cynnwys datganiad am yr hawl hon mewn rhybudd sy'n galw cyfarfod o'r cwmni (adran 325 o Ddeddf Cwmnïau 2006). Mae Erthygl 15 yn delio â rhybuddion o'r fath.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dirprwyon yn seiliedig ar ddarpariaethau yn Atodlen 2 o Reoliadau Cwmnïau (Erthyglau Enghreifftiol) 2008.

## Cynnwys hysbysiadau drwy ddirprwy

22 (1) Gall dirprwyon gael eu penodi'n ddilys dim ond trwy hysbysiad ysgrifenedig ('hysbysiad drwy ddirprwy') sydd

(a) yn nodi enw a chyfeiriad yr aelod sy'n penodi'r dirprwy;

(b) adnabod y sawl sydd wedi'i benodi fel dirprwy yr aelod a'r cyfarfod cyffredinol y mae'r unigolyn hwnnw yn cael ei benodi ar ei gyfer;

(c) wedi'i lofnodi gan neu ar ran yr aelod sy'n penodi'r dirprwy, neu wedi'i ddilysu mewn ffordd a bennir gan y cyfarwyddwyr; ac

(ch) yn cael ei gyflwyno i'r elusen yn unol â'r erthyglau ac unrhyw gyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys yn y rhybudd o gyfarfod cyffredinol y maent yn cyfeirio ato.

(2) Gall yr elusen fynnu bod hysbysiadau drwy ddirprwy yn cael eu cyflwyno mewn ffurf arbennig, a gallant bennu ffurfiau gwahanol at ddibenion gwahanol.

(3) Gall hysbysiadau drwy ddirprwy bennu sut y mae'r dirprwy a benodir oddi danynt yn pleidleisio (neu fod y dirprwy yn ymatal rhag pleidleisio) ar un cynnig neu fwy.

## Nodiadau

(4) Oni bai bod hysbysiad drwy ddirprwy yn nodi fel arall, rhaid iddo gael ei drin fel un sy'n -

(a) caniatáu i'r sawl a benodir oddi dano fel disgresiwn dirprwy ynghylch sut i bleidleisio ar unrhyw gynigion atodol neu weithdrefnol a roddwyd gerbron y cyfarfod, a

(b) penodi'r unigolyn hwnnw fel dirprwy mewn perthynas ag unrhyw ohirio o'r cyfarfod cyffredinol y mae'n cyfeirio ato yn ogystal â'r cyfarfod ei hun.

### Cyflwyno hysbysiadau drwy ddirprwy

22A (1) Mae unigolyn sydd â'r hawl i fod yn bresennol, siarad neu bleidleisio (naill ai drwy godi llaw neu gyfrif pleidleisiau) mewn cyfarfod cyffredinol yn parhau â'r hawl ar gyfer y cyfarfod hwnnw neu unrhyw oedi o'r cyfarfod, er bod hysbysiad drwy ddirprwy dilys wedi cael ei gyflwyno i'r elusen gan neu ar ran yr unigolyn hwnnw.

(2) Gall penodiad o dan hysbysiad drwy ddirprwy gael ei dynnu'n ôl trwy gyflwyno i'r elusen hysbysiad ysgrifenedig a roddir gan neu ar ran yr unigolyn sydd wedi rhoi'r hysbysiad drwy ddirprwy neu y cafodd ei roi ar ei ran.

(3) Mae hysbysiad sy'n tynnu'n ôl penodiad drwy ddirprwy dim ond yn weithredol os caiff ei gyflwyno cyn dechrau'r cyfarfod neu gyfarfod a ohiriwyd y mae'n cyfeirio ato.

(4) Os nad yw hysbysiad drwy ddirprwy yn cael ei weithredu gan y sawl sy'n penodi'r dirprwy, rhaid iddo gynnwys tystiolaeth ysgrifenedig o awdurdod y sawl a'i weithredodd i'w weithredu ar ran y sawl sy'n penodi.

**Erthygl 23** - Mae'n cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006 sy'n darparu os yw rhai gofynion wedi'u bodloni gall mwyafrif syml o'r aelodau gytuno ar gynigion cyffredin ac arbennig ysgrifenedig (adrannau 288 - 298). Mae'r hyn a ystyrir yn ddogfen wedi'i dilysu wedi'i esbonio yn adran 1146 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae dogfen a anfonwyd ar ffurf copi caled wedi'i dilysu'n ddigonol gan lofnod y sawl sy'n ei hanfon neu ei chyflenwi. Mae dogfen a anfonwyd mewn ffurf electronig wedi'i dilysu'n ddigonol (a) os yw hunaniaeth yr anfonwr wedi'i gadarnhau yn y dull a bennwyd gan y cwmni, neu (b) os nad yw dull o'r fath wedi cael ei bennu, os yw'r ohebiaeth yn cynnwys datganiad o hunaniaeth yr anfonwr, neu mae hyn wedi'i atodi, ac nid oes rheswm gan y cwmni i amau gwirionedd y datganiad hwnnw.

### Cynigion ysgrifenedig

23 (1) Bydd cynnig ysgrifenedig wedi'i gytuno gan fwyafrif syml (neu yn achos cynnig arbennig gan fwyafrif o ddim llai na 75%) o'r aelodau a fyddai wedi bod â hawl i bleidleisio arno pe byddai wedi cael ei gyflwyno mewn cyfarfod cyffredinol yn weithredol ar yr amod bod:

(a) copi o'r cynnig arfaethedig wedi cael ei anfon at bob aelod cymwys;

(b) mae mwyafrif syml (neu yn achos cynnig arbennig mwyafrif o ddim llai na 75%) o'r aelodau wedi llofnodi eu bod yn cytuno â'r cynnig; ac

(c) mae wedi'i gynnwys mewn dogfen wedi'i dilysu a gafodd ei derbyn yn y swyddfa gofrestredig o fewn y cyfnod o 28 diwrnod yn dechrau gyda'r dyddiad cylchrediad.

(2) Gall cynnig ysgrifenedig gynnwys sawl copi y mae un neu ragor o'r aelodau wedi llofnodi eu bod yn cytuno â'r cynnig.

(3) Yn achos aelod-sefydliad, gall ei gynrychiolydd awdurdodedig lofnodi ei fod yn cytuno.

## Nodiadau

**Erthygl 27(1)** - Mae 'bod dynol' yn cyfeirio at unigolyn yn hytrach na chwmni a all mewn rhai achosion gael ei ystyried yn 'berson'. Yr oedran lleiaf ar gyfer cyfarwyddwyr yn yr erthygl hon yw 16 oed. Daeth darpariaeth statudol i'r perwyl hwn i rym ar 1 Hydref 2008.

**Erthygl 28** - Fel arfer weithredol dda argymhellwn leiafswm o dri chyfarwyddwr. Bydd hyn yn helpu sicrhau bod penderfyniadau o ansawdd yn cael eu gwneud a rhannu cyfrifoldebau a dyletswyddau'r cyfarwyddwyr. Sylwch mae erthygl 42(2) yn ei gwneud hi'n ofynnol i gael cworwm o ddau gyfarwyddwr o leiaf.

## Pleidleisiau aelodau

24 Yn amodol ar erthygl 11, bydd un bleidlais gan bob aelod, boed yn unigolyn neu'n sefydliad.

25 Rhaid i unrhyw wrthwynebiad i gymhwyster unrhyw bleidleisiwr gael ei godi yn y cyfarfod lle mae'r bleidlais yn cael ei bwrw a bydd penderfyniad y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn derfynol.

26 (1) Gall unrhyw sefydliad sy'n aelod o'r elusen enwebu unrhyw unigolyn i weithredu fel ei gynrychiolydd mewn unrhyw gyfarfod o'r elusen.

(2) Rhaid i'r sefydliad hysbysu'r elusen yn ysgrifenedig am enw ei gynrychiolydd. Ni fydd hawl gan y cynrychiolydd i gynrychioli'r sefydliad mewn unrhyw gyfarfod oni bai bod yr elusen wedi derbyn yr hysbysiad. Gall y cynrychiolydd barhau i gynrychioli'r sefydliad nes bod yr elusen yn derbyn hysbysiad ysgrifenedig i'r gwrthwyneb.

(3) Bydd unrhyw hysbysiad a roddir i'r elusen yn dystiolaeth derfynol bod hawl gan y cynrychiolydd i gynrychioli'r sefydliad neu fod ei awdurdod wedi cael ei ddiddymu. Ni fydd yn ofynnol i'r elusen ystyried a yw'r cynrychiolydd wedi cael ei benodi'n briodol gan y sefydliad.

## Cyfarwyddwyr

27 (1) Rhaid i gyfarwyddwr fod yn fod dynol 16 oed neu'n hŷn.

(2) Ni all unrhyw un gael ei benodi fel cyfarwyddwr pe byddai wedi cael ei anghymhwyso rhag gweithredu o dan ddarpariaethau erthygl 39.

28 Lleiafswm y cyfarwyddwyr fydd [    ] ond (oni bai y pennir fel arall gan gynnig cyffredin) ni fydd yn amodol ar unrhyw uchafswm.

29 Y cyfarwyddwyr cyntaf fydd yr unigolion hynny y rhoddir gwybod i Dŷ'r Cwmnïau eu bod yn gyfarwyddwyr cyntaf yr elusen.

30 Ni all cyfarwyddwr benodi cyfarwyddwr arall neu unrhyw un i weithredu ar ei ran yng nghyfarfodydd y cyfarwyddwyr.

## Pwerau cyfarwyddwyr

31 (1) Bydd y cyfarwyddwyr yn rheoli busnes yr elusen a gallant ymarfer holl bwerau'r elusen oni bai eu bod yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau a osodir gan y Ddeddf Cwmnïau, yr erthyglau neu unrhyw benderfyniad arbennig.

(2) Ni fydd unrhyw newid i'r erthyglau neu unrhyw benderfyniad arbennig yn cael effaith ôl-weithredol i annilysu unrhyw weithred flaenorol y cyfarwyddwyr.

(3) Gall unrhyw gyfarfod y cyfarwyddwyr lle mae cworwm yn bresennol pan gaiff y penderfyniad perthnasol ei wneud ymarfer yr holl bwerau y gall y cyfarwyddwyr eu hymarfer.

## Nodiadau

**Erthygl 34** - Mae ein canllaw Cael Hyd i Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod (CC30) yn cynnig arweiniad ar ddulliau effeithiol o recriwtio ymddiriedolwyr elusen neu gyfarwyddwyr newydd a'u hymgyfarwyddo â'r elusen.

**Erthygl 35(2)(c)** - Rhaid anfon rhai manylion am gyfarwyddwyr sydd newydd gael eu penodi i Dŷ'r Cwmnïau ar Ffurflen AP01. Mae hyn yn cynnwys manylion am enw, cyfeiriad a galwedigaeth gyfredol neu flaenorol a chydsyniad i weithredu.

### Cyfarwyddwyr yn ymddiswyddo

32 Yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf rhaid i'r holl gyfarwyddwyr ymddiswyddo o'r swydd oni bai fod yr aelodau wedi methu ag ethol digon o gyfarwyddwyr erbyn diwedd y cyfarfod i gynnal cyfarfod y cyfarwyddwyr gyda chworwm. Ym mhob cyfarfod cyffredinol blynyddol dilynol rhaid i un rhan o dair o'r cyfarwyddwyr neu, os nad yw eu nifer yn dri neu'n lluosrif o dri, y nifer sy'n agosaf i un rhan o dair, ymddiswyddo. Os mai dim ond un cyfarwyddwr sydd, rhaid iddo neu iddi ymddiswyddo.

33 (1) Y cyfarwyddwyr a fydd yn ymddiswyddo yn eu tro fydd y rhai sydd wedi bod yn y swydd am y cyfnod hwyaf ers eu penodiad diwethaf. Os yw unrhyw gyfarwyddwyr yn cael swydd cyfarwyddwyr neu'n cael eu penodi'n gyfarwyddwyr ar yr un diwrnod, penderfynir pwy fydd yn ymddiswyddo (oni bai eu bod yn cytuno fel arall ymysg ei gilydd) trwy fwrw coelbren.

(2) Os yw'n ofynnol i gyfarwyddwr ymddiswyddo mewn cyfarfod cyffredinol blynyddol trwy ddarpariaeth yn yr erthyglau hyn bydd yr ymddiswyddiad yn weithredol pan ddaw'r cyfarfod i ben.

### Penodi cyfarwyddwyr

34 Gall yr elusen, trwy gynnig cyffredin:

(1) penodi unigolyn sy'n barod i weithredu fel cyfarwyddwr; a

(2) pennu ym mha drefn y bydd unrhyw gyfarwyddwyr ychwanegol yn ymddiswyddo.

35 Ni all unrhyw un heblaw cyfarwyddwr sy'n ymddiswyddo yn ei dro gael ei benodi fel cyfarwyddwr mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol oni bai:

(1) bod y cyfarwyddwyr yn argymell ei ailethol; neu

(2) dim llai na phedwar ar ddeg na mwy na phum ar ddeg ar hugain o ddiwrnodau clir cyn dyddiad y cyfarfod, mae'r elusen yn derbyn hysbysiad sydd:

(a) wedi'i lofnodi gan aelod sydd â hawl i bleidleisio yn y cyfarfod;

(b) yn datgan bwriad yr aelod i gynnig penodi unigolyn fel cyfarwyddwr;

(c) yn cynnwys y manylion y byddai'n rhaid i'r elusen eu cofnodi yn Nhŷ'r Cwmnïau pe byddai'r unigolyn yn cael ei benodi; ac

(ch) wedi'i lofnodi gan y sawl sydd i'w gynnig i ddangos ei barodrwydd i gael ei benodi.

36 Rhaid i bob aelod sydd â'r hawl i dderbyn rhybudd o gyfarfod cyffredinol gael dim llai na saith na dim mwy nag wyth ar hugain diwrnod clir o rybudd am unrhyw gynnig sydd i'w roi gerbron y cyfarfod i benodi cyfarwyddwr heblaw cyfarwyddwr a fydd yn ymddiswyddo yn ei dro.

## Nodiadau

**Erthygl 39(2)** - Mae ein canllaw Cael Hyd i Ymddiriedolwyr Newydd: Yr hyn y mae angen i elusennau wybod (CC30) yn esbonio beth mae adrannau 178 ac 179 y Ddeddf yn ei gwmpasu. Yn fras iawn, bydd rhywun sydd wedi ei ddyfarnu'n euog o droseddau sy'n cynnwys dichell neu dwyll, neu sy'n fethdalwr nas rhyddhawyd neu yr ydym ni wedi'i ddiswyddo fel ymddiriedolwr elusen yn cael ei anghymhwyso rhag gweithredu fel cyfarwyddwr.

**Erthygl 41** - Darparwn arweiniad ar gyfarfodydd yn ein llyfryn Elusennau a Chyfarfodydd (CC48). Mae Erthygl 41(5) yn ddewisol: mae'n gyffredin ond nid yn ofynnol i'r cadeirydd gael pleidlais bwrw mewn cyfarfodydd cyfarwyddwyr. Mae Erthygl 41(6) yn ddewisol hefyd. Mae'n caniatáu i gyfarwyddwyr gynnal cyfarfodydd trwy ddulliau electronig addas lle y cytunir ar hyn gan y cyfarwyddwyr a gall pob cyfarwyddwr yn y cyfarfod gyfathrebu â'r unigolion eraill oedd yn bresennol yn y cyfarfod. Os yw erthygl 41(6) yn cael ei mabwysiadu, dylai'r diffiniad ehangach dewisol o 'bresennol' yn erthygl 42(1) gael ei fabwysiadu hefyd.

37 (1) Gall y cyfarwyddwyr benodi unigolyn sy'n barod i weithredu fel cyfarwyddwr.

(2) Rhaid i gyfarwyddwr sy'n cael ei benodi trwy gynnig y cyfarwyddwyr eraill ymddiswyddo yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol nesaf ac ni all gael ei gyfrif wrth benderfynu pa gyfarwyddwyr fydd yn ymddiswyddo yn eu tro.

38 Ni all penodi cyfarwyddwr, naill ai gan yr elusen mewn cyfarfod cyffredinol neu gan y cyfarwyddwyr eraill, beri bod nifer y cyfarwyddwyr yn fwy nag unrhyw nifer a bennwyd fel uchafswm y cyfarwyddwyr.

### Anghymhwyso a diswyddo cyfarwyddwyr

39 Bydd cyfarwyddwr yn peidio â dal swydd os yw:

(1) yn peidio â bod yn gyfarwyddwr trwy rinwedd unrhyw ddarpariaeth yn y Deddfau Cwmnïau neu wedi'i wahardd yn ôl y gyfraith rhag bod yn gyfarwyddwr;

(2) wedi'i anghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwr trwy rinwedd adrannau 178 ac 179 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu unrhyw ailddeddfiad statudol neu addasiad o'r darpariaethau hynny);

(3) yn peidio â bod yn aelod o'r elusen;

(4) yn y farn ysgrifenedig, a roddir i'r cwmni, gan feddyg teulu cofrestredig sy'n trin yr unigolyn hwnnw, wedi datblygu analluedd corfforol neu feddyliol i weithredu fel cyfarwyddwr a gall barhau felly am fwy na thri mis;

(5) yn ymddiswyddo fel cyfarwyddwr trwy roi hysbysiad i'r elusen (ond dim ond os bydd o leiaf ddau gyfarwyddwr yn aros yn y swydd pan fydd yr hysbysiad ymddiswyddo yn weithredol); neu

(6) yn absennol heb ganiatâd y cyfarwyddwyr o bob un o'u cyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o chwe mis olynol ac mae'r cyfarwyddwyr yn penderfynu y dylai ei swydd fod yn wag.

### Talu cyfarwyddwyr

40 Ni all y cyfarwyddwyr gael unrhyw dâl oni bai yr awdurdodir hyn gan erthygl 7.

### Gweithrediadau'r cyfarwyddwyr

41 (1) Gall y cyfarwyddwyr reoleiddio eu gweithrediadau fel y gwelant yn dda, yn amodol ar ddarpariaethau'r erthyglau.

(2) Gall unrhyw gyfarwyddwr alw cyfarfod y cyfarwyddwyr.

(3) Rhaid i'r ysgrifennydd (os oes) alw cyfarfod o'r cyfarwyddwyr os yw cyfarwyddwr yn gofyn iddo/iddi wneud hynny.

(4) Bydd cwestiynau sy'n codi mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y pleidleisiau.

## Nodiadau

[Dewisol

(5) Yn achos pleidleisiau cyfartal, bydd gan y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod ail bleidlais neu bleidlais fwrw.]

[(6) Gall cyfarfod gael ei gynnal gan ddull electronig addas a gytunwyd gan y cyfarwyddwyr lle y gall pob cyfranogwr gyfathrebu â phob un o'r cyfranogwyr eraill.]

42 (1) Ni all unrhyw benderfyniad gael ei wneud gan gyfarfod y cyfarwyddwyr oni bai bod cworwm yn bresennol ar yr adeg yr ystyrir bod y penderfyniad wedi cael ei wneud. [Mae 'presennol' yn cynnwys bod yn bresennol gan ddull electronig addas a gytunwyd gan y cyfarwyddwyr lle y gall cyfranogwr neu gyfranogwyr gyfathrebu â phob un o'r cyfranogwyr eraill.]

(2) Bydd y cworwm yn ddau neu'r nifer sy'n agosaf at un rhan o dair o gyfanswm nifer y cyfarwyddwyr, p'un bynnag yw'r mwyaf, neu nifer mwy a all gael ei bennu o bryd i'w gilydd gan y cyfarwyddwyr.

(3) Ni fydd cyfarwyddwr yn cael ei gyfrif yn y cworwm sy'n bresennol pan fydd unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud am fater nad oes hawl gan y cyfarwyddwr hwnnw i bleidleisio arno.

43 Os yw nifer y cyfarwyddwyr yn llai na'r nifer a bennwyd fel y cworwm, gall y cyfarwyddwyr neu gyfarwyddwr sy'n parhau weithredu dim ond i'r pwrpas o lenwi swyddi gwag neu alw cyfarfod cyffredinol.

44 (1) Bydd y cyfarwyddwyr yn penodi cyfarwyddwr i gadeirio eu cyfarfodydd a gallant ddiddymu penodiad o'r fath ar unrhyw adeg.

(2) Os nad yw unrhyw un wedi'i benodi i gadeirio cyfarfodydd y cyfarwyddwyr neu os yw'r sawl a benodwyd yn amharod i lywyddu neu nid yw'n bresennol cyn pen deg munud ar ôl yr amser a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod, gall y cyfarwyddwyr sy'n bresennol benodi un o'u plith i gadeirio'r cyfarfod hwnnw.

(3) Ni fydd gan y sawl a benodir i gadeirio cyfarfodydd y cyfarwyddwyr unrhyw swyddogaethau neu bwerau ac eithrio'r rhai a roddir gan yr erthyglau neu a ddirprwyir iddo gan y cyfarwyddwyr.

45 (1) Bydd penderfyniad ysgrifenedig neu mewn ffurf electronig wedi'i gytuno gan bob un o'r cyfarwyddwyr sydd â hawl i gael rhybudd o gyfarfod y cyfarwyddwyr a phleidleisio ar y cynnig fod mor ddilys ac effeithiol â phe byddai wedi cael ei basio mewn cyfarfod y cyfarwyddwyr a gynullwyd ac a gynhaliwyd i'r pwrpas hwnnw.

(2) Gall y penderfyniad ysgrifenedig gynnwys sawl dogfen gyda thestun y penderfyniad mewn ffurf debyg y mae un neu ragor o'r cyfarwyddwyr wedi llofnodi ei fod yn cytuno ag ef.

Nodiadau

## Dirprwyo

46 (1) Gall y cyfarwyddwyr ddirprwyo unrhyw bwerau neu swyddogaethau sydd ganddynt i bwyllgor o ddau neu ragor o gyfarwyddwyr ond rhaid i delerau'r dirprwyo gael eu cofnodi yn y llyfr cofnodion.

(2) Gall y cyfarwyddwyr osod amodau wrth ddirprwyo, gan gynnwys yr amodau:

(a) y caiff y pwerau perthnasol eu harfer gan y pwyllgor dirprwyedig yn unig;

(b) ni all unrhyw wariant godi ar ran yr elusen ac eithrio yn unol â chyllideb y cytunwyd arni eisoes gyda'r cyfarwyddwyr.

(3) Gall y cyfarwyddwyr ddiddymu neu newid dirprwyaeth.

(4) Rhaid i holl weithrediadau a gweithdrefnau unrhyw bwyllgorau gael eu hadrodd yn llawn ac yn brydlon i'r cyfarwyddwyr.

## Dilysrwydd penderfyniadau'r cyfarwyddwyr

47 (1) Yn amodol ar erthygl 47(2), bydd holl weithrediadau cyfarfod y cyfarwyddwyr, neu bwyllgor y cyfarwyddwyr, yn ddilys heblaw bod cyfarwyddwr:

(a) a oedd wedi'i anghymhwyso rhag dal swydd;

(b) a oedd wedi ymddiswyddo yn flaenorol neu yr oedd yn ofynnol iddo adael y swydd yn ôl y cyfansoddiad;

(c) a oedd heb hawl i bleidleisio ar y mater, oherwydd gwrthdaro buddiannau neu fel arall;

wedi cymryd rhan mewn unrhyw bleidlais a heb:

(ch) ystyried pleidlais y cyfarwyddwr hwnnw; a heb

(d) cyfrif y cyfarwyddwr hwnnw yn y cworwm;.

mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud gan y mwyafrif o'r cyfarwyddwyr mewn cyfarfod sydd â chworwm.

(2) Nid yw erthygl 47(1) yn caniatáu i gyfarwyddwr neu unigolyn cysylltiedig gadw unrhyw fudd y gall unrhyw benderfyniad y cyfarwyddwyr neu bwyllgor y cyfarwyddwyr ei roi iddo neu iddi os, heblaw am erthygl 47(1), byddai'r penderfyniad yn annilys, neu os nad yw'r cyfarwyddwr wedi cydymffurfio ag erthygl 8.

## Nodiadau

## Sêl

48 Os oes sêl gan yr elusen dylid ei defnyddio dim ond gydag awdurdod y cyfarwyddwyr neu bwyllgor y cyfarwyddwyr a awdurdodwyd gan y cyfarwyddwyr. Gall y cyfarwyddwyr bennu pwy fydd yn llofnodi unrhyw offeryn y mae'r sêl wedi'i gosod arno ac oni bai y pennir fel arall caiff ei lofnodi gan gyfarwyddwr a chan yr ysgrifennydd (os oes) neu gan ail gyfarwyddwr.

**Erthygl 49** - Trwy ddefnyddio'r pŵer i lunio rheolau yn erthygl 58, gall y cyfarwyddwyr benderfynu ym mha ffurf y dylid cadw'r cofnodion a sut i'w dilysu.

## Cofnodion

49 Rhaid i'r cyfarwyddwyr gadw cofnodion o:

(1) pob swyddog sy'n cael ei benodi gan y cyfarwyddwyr;

(2) trafodion cyfarfodydd yr elusen;

(3) cyfarfodydd y cyfarwyddwyr a phwyllgorau'r cyfarwyddwyr gan gynnwys:

(a) enwau'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod;

(b) y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y cyfarfodydd; a

(c) lle y bo'n briodol, y rhesymau dros y penderfyniadau.

**Erthygl 50** - Mae Datganiad o Arferion Cymeradwy elusennau ar gael ar ein gwefan neu ar gopi caled, o'r cyhoeddwyr CCH. Rhif eu gwasanaethau cwsmeriaid yw 0844 561 8166.

## Cyfrifon

50 (1) Rhaid i'r cyfarwyddwyr baratoi ar gyfer bob blwyddyn ariannol gyfrifon sy'n ofynnol gan y Deddfau Cwmnïau. Rhaid i'r cyfrifon gael eu paratoi i roi darlun gwir a theg a dilyn safonau cyfrifeg a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifeg neu ei olynwyr a dilyn argymhellion y Datganiad o Arferion Cymeradwy cymwys.

(2) Rhaid i'r cyfarwyddwyr gadw cofnodion cyfrifyddu fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Cwmnïau.

**Erthygl 51** – Mae'r canllawiau sydd ar gael ar ein gwefan yn pennu'r gofynion cyfrifyddu allweddol ar gyfer elusennau. Rhaid i bob elusen sydd ag incwm o fwy na £10k anfon Adroddiad Blynyddol a Ffurflen Flynyddol atom cyn pen 10 mis o ddiwedd ei blwyddyn ariannol. Rhaid i elusennau gydag incwm o fwy na £25k anfon cyfrifon hefyd.

**Erthygl 51(1)(c)** - Mae'r Ffurflen Flynyddol yn rhoi crynodeb o ddata ariannol allweddol.

## Adroddiad Blynyddol, Ffurflen Flynyddol a'r Gofrestr Elusennau

51 (1) Rhaid i'r cyfarwyddwyr gydymffurfio â gofynion Deddf Elusennau 2011 mewn perthynas â:

(a) rhoi copi o'r datganiadau cyfrifon i'r Comisiwn;

(b) paratoi Adroddiad Blynyddol a rhoi copi ohono i'r Comisiwn;

(c) paratoi Ffurflen Flynyddol a'i rhoi i'r Comisiwn.

(2) Rhaid i'r cyfarwyddwyr hysbysu'r Comisiwn yn brydlon am unrhyw newidiadau i gofnod yr elusen ar y Gofrestr Ganolog Elusennau.

## Nodiadau

**Erthyglau 52, 53, 54 a 56** - Maent yn ofynion manwl mewn perthynas â chyfathrebu electronig sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cwmnïau 2006. Mae adrannau 308-309 yn delio â'r ffordd y mae'r hysbysiad yn cael ei rhoi a chynnwys unrhyw hysbysiad ar y wefan. Mae Adran 333 yn ymwneud ag anfon dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd ac ati mewn ffurf electronig. Mae Adrannau 1143-1148 ac Atodlenni 4 a 5 yn delio ag anfon neu gyflenwi dogfennau neu wybodaeth. Mae Adran 1168 yn cynnwys diffiniadau o 'gopi caled' a 'ffurf electronig' a thermau perthnasol eraill.

## Dulliau cyfathrebu i'w defnyddio

52 (1) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw beth a anfonir neu a gyflenwir gan neu i'r elusen o dan yr erthyglau gael ei anfon neu ei gyflenwi mewn ffordd y mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei ddarparu ar gyfer dogfennau neu wybodaeth sydd wedi'i hawdurdodi neu sy'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth o'r Ddeddf honno sydd i'w hanfon neu ei chyflenwi gan neu i'r elusen.

(2) Yn amodol ar yr erthyglau, gall unrhyw hysbysiad neu ddogfen sydd i'w hanfon neu ei chyflenwi i gyfarwyddwr mewn perthynas â gwneud penderfyniadau gan gyfarwyddwyr hefyd gael ei hanfon neu ei chyflenwi trwy'r dulliau y mae'r cyfarwyddwr wedi gofyn iddo gael ei hanfon neu ei chyflenwi gyda hysbysiadau neu ddogfennau o'r fath am y tro.

53 Rhaid i unrhyw hysbysiad sydd i'w roi i unrhyw unigolyn neu gan unrhyw unigolyn ynglŷn â'r erthyglau:

(1) bod yn ysgrifenedig; neu

(2) cael ei roi mewn ffurf electronig.

54 (1) Gall yr elusen roi unrhyw hysbysiad i aelod naill ai:

(a) yn bersonol; neu

(b) trwy ei anfon trwy'r post mewn amlen ragdaledig wedi'i chyfeirio at yr aelod yn ei gyfeiriad; neu

(c) trwy ei adael yng nghyfeiriad yr aelod; neu

(ch) trwy ei roi mewn ffurf electronig i gyfeiriad yr aelod;

(d) drwy roi rhybudd ar wefan a rhoi hysbysiad ysgrifenedig neu ar ffurf electronig i'r unigolyn sy'n datgan bod y rhybudd ar y wefan. Rhaid i'r hysbysiad nodi a yw'n ymwneud â rhybudd o gyfarfod cwmni a rhaid iddo nodi lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod

(2) Ni fydd hawl gan aelod nad yw'n cofrestru cyfeiriad gyda'r elusen neu sy'n cofrestru cyfeiriad post yn unig nad yw o fewn y Deyrnas Unedig dderbyn unrhyw hysbysiad gan yr elusen.

55 Ystyrir y bydd aelod sy'n bresennol yn bersonol mewn unrhyw gyfarfod yr elusen wedi cael hysbysiad o'r cyfarfod ac i ba bwrpas y galwyd y cyfarfod.

56 (1) Bydd prawf bod amlen sy'n cynnwys hysbysiad wedi cael ei chyfeirio'n briodol, yn rhagdaledig ac wedi'i phostio yn dystiolaeth derfynol bod hysbysiad wedi'i roi.

(2) Bydd prawf bod ffurf o hysbysiad electronig wedi cael ei rhoi yn derfynol os gall y cwmni ddangos ei fod wedi cael ei gyfeirio a'i anfon yn briodol, yn unol ag adran 1147 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

## Nodiadau

**Erthygl 57** - Mae'r ddarpariaeth hon yn ystyried i ba raddau y gall cyfarwyddwyr gael eu diogelu ('indemnio') rhag atebolrwydd. Mae'n adlewyrchu newidiadau yn y gyfraith a wnaed gan Ddeddf Cwmnïau 2006. Mae tri dewis ar gyfer indemnio cyfarwyddwyr. Gall fod yn ddefnyddiol i gysylltu â'ch ymgynghorwyr cyfreithiol eich hun ynghylch pa ymagwedd sydd orau ar gyfer eich elusen chi.

Mae'r dewisiadau hyn yn darparu ar gyfer anghenion y rhan fwyaf o elusennau. Mae'r prif wahaniaethau yn ymwneud â dymuniad y cwmni i indemnio ei gyfarwyddwyr mewn achosion unigol, neu a ddylai'r diogelwch hwn fod yn hawl a roddir iddynt yn awtomatig. Sylwch nid yw unrhyw un o'r dewisiadau hyn yn rhoi'r pŵer i'r cwmni roi indemniad cynhwysfawr i'w gyfarwyddwyr - maen nhw i gyd wedi'u cyfyngu i'r hyn a ganiateir gan y gyfraith a gellir eu hymarfer er lles yr elusen yn unig.

Ar ôl ystyried y pwyntiau bwled isod, dewiswch un ohonynt a dilëwch y gweddill:

- Mae Dewis 1 yn rhoi'r dewis i'r cwmni indemnio cyfarwyddwyr mewn unrhyw amgylchiadau a ganiateir gan y Ddeddf Cwmnïau 2006. Nid yw'n rhoi unrhyw **hawl** i indemnio. Nid yw'r dewis hwn yn cwmpasu swyddogion heblaw cyfarwyddwyr yn benodol, ond mae'r gyfraith gyffredinol yn awgrymu gallu i'w hindemnio.
- Mae Dewis 2 yn cynnig modd i'r cwmni ddarparu **hawl** i gyfarwyddwyr gael eu hindemnio. Gall **pŵer** i indemnio swyddogion eraill fod ymhlyg.
- Mae Dewis 3 yn cynnig modd i'r cwmni roi hawl i **gyfarwyddwyr** gael **indemniad cyfyngedig** fel y pennwyd yn yr erthygl hon.

**Erthygl 57A** - Mae'r erthygl hon yn ddewisol ond byddai'n caniatáu i'r elusen indemnio archwiliwr yn yr amgylchiadau cyfyngedig a ganiateir gan adran 533 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

(3) Yn unol ag adran 1147 o Ddeddf Cwmnïau 2006 bydd hysbysiad wedi'i roi:

(a) 48 awr ar ôl i'r amlen a oedd yn ei gynnwys gael ei phostio; neu

(b) yn achos ffurf electronig o gyfathrebu, 48 awr ar ôl iddo gael ei hanfon.

### Indemniad

**[Dewis 1**

[57 (1) Gall yr elusen indemnio cyfarwyddwr perthnasol yn erbyn unrhyw atebolrwydd a ddaw i'w ran yn rhinwedd ei swydd, i'r graddau a ganiateir gan adrannau 232 i 234 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

(2) Yn yr erthygl hon mae 'cyfarwyddwr perthnasol' yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn cyfarwyddwr yr elusen.**]**

**[Dewis 2**

[57 (1) Bydd yr elusen yn indemnio cyfarwyddwr perthnasol yn erbyn unrhyw atebolrwydd a ddaw i'w ran yn rhinwedd ei swydd, i'r graddau a ganiateir gan adrannau 232 i 234 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

(2) Yn yr erthygl hon mae 'cyfarwyddwr perthnasol' yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn cyfarwyddwr yr elusen.**]**

**[Dewis 3**

[57 (1) Bydd yr elusen yn indemnio cyfarwyddwr perthnasol yn erbyn unrhyw atebolrwydd a ddaw i'w ran wrth amddiffyn yn llwyddiannus achos cyfreithiol yn y rhinwedd hwnnw, neu mewn perthynas ag unrhyw gais lle y rhoddir rhyddhad gan y Llys rhag atebolrwydd ar gyfer esgeulustod, diffyg gweithredu, neu dor-ddyletswydd a thor-ymddiriedaeth mewn perthynas â'r elusen.

(2) Yn yr erthygl hon mae 'cyfarwyddwr perthnasol' yn golygu unrhyw gyfarwyddwr neu gyn cyfarwyddwr yr elusen.**]**

**[Dewisol**

57A Gall yr elusen indemnio archwiliwr yn erbyn unrhyw atebolrwydd a ddaw i'w ran

(1) wrth amddiffyn achos (sifil neu droseddol) lle y rhoddir barn yn ei enw neu o'i blaid neu os yw'n cael ei ryddfarnu; neu

(2) mewn perthynas â chais o dan adran 1157 o Ddeddf Cwmnïau 2006 (pŵer y Llys i roi rhyddhad yn achos ymddygiad gonest a rhesymol) lle y rhoddir rhyddhad iddo neu iddi gan y Llys.**]**

## Nodiadau

**Erthygl 59** - Mae'n arfer da i gynnwys darpariaethau ar gyfer delio ag unrhyw anghydfodau sy'n codi rhwng aelodau'r elusen. Gall cyfreitha fod yn ddrud, a byddai cyfreitha am faterion mewnol elusen bron yn sicr yn cael ei ystyried yn 'drafodion elusen', y gellir eu cymryd dim ond gydag awdurdod y Comisiwn. Fel arfer byddem yn gofyn i'r partïon mewn anghydfod geisio cyfryngu yn gyntaf.

## Rheolau

58 (1) Gall y cyfarwyddwyr, o bryd i'w gilydd, lunio rheolau neu is-ddeddfau rhesymol a phriodol y teimlant eu bod yn angenrheidiol neu'n fuddiol er mwyn rheoli a gweinyddu'r elusen yn briodol.

(2) Gall yr is-ddeddfau reoleiddio'r materion canlynol ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

(a) derbyn aelodau'r elusen (gan gynnwys derbyn sefydliadau fel aelodau) a hawliau a breintiau aelodau o'r fath, a'r ffioedd aelodaeth, tanysgrifiadau a ffioedd neu daliadau eraill y bydd yr aelodau yn eu talu;

(b) y ffordd y mae aelodau'r elusen yn ymddwyn tuag at ei gilydd, a thuag at weithwyr a gwirfoddolwyr yr elusen;

(c) neilltuo'r cyfan neu unrhyw ran neu rannau o adeiladau'r elusen ar unrhyw adeg neu adegau arbennig neu at unrhyw ddiben neu ddibenion arbennig;

(ch) y drefn mewn cyfarfodydd cyffredinol a chyfarfodydd y cyfarwyddwyr ar yr amod nad yw hyn wedi'i reoleiddio gan y Deddfau Cwmnïau neu gan yr erthyglau;

(d) yn gyffredinol, pob mater o'r fath y cyfeiria rheolau cwmnïau atynt yn gyffredinol.

(3) Mewn cyfarfod cyffredinol mae pŵer gan yr elusen i newid, ychwanegu at neu ddiddymu'r rheolau neu'r is-ddeddfau.

(4) Rhaid i'r cyfarwyddwyr fabwysiadu dull sy'n ddigonol yn eu barn nhw i ddod â'r rheolau a'r is-ddeddfau at sylw aelodau'r elusen.

(5) Bydd y rheolau neu'r is-ddeddfau yn gyfrwymol ar bob aelod o'r elusen. Bydd pob rheol neu is-ddeddf yn cydymffurfio ag unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y cyfansoddiad hwn, ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn yr erthyglau neu'n eu diddymu.

## Anghydfodau

59 Os oes anghydfod rhwng yr aelodau'r elusen ynghylch dilysrwydd neu briodoldeb unrhyw beth sy'n cael ei wneud gan aelodau'r elusen o dan yr erthyglau hyn, ac nid oes modd datrys yr anghydfod drwy gytundeb, mae'n rhaid i'r partïon mewn anghydfod geisio setlo'r anghydfod mewn ewyllys da yn gyntaf drwy gyfryngu cyn troi at gyfreitha.

## Nodiadau

**Erthygl 60** - Mae pŵer gan yr elusen o dan y Deddfau Cwmnïau i ddirwyn i ben. Rhaid i'r cyfarwyddwyr gydymffurfio â'r gyfraith cwmnïau wrth ddefnyddio'r pŵer hwnnw a rhoi'r dogfennau angenrheidiol i Dŷ'r Cwmnïau. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r cyfarwyddwyr anfon copi o'r penderfyniad perthnasol a chopi o'r cyfrifon ariannol atom yn brydlon.

**Erthygl 61** - Mae'r erthygl hon yn esbonio rhai o'r termau a ddefnyddir mewn rhai o'r erthyglau eraill.

## Diddymu

60 (1) Gall aelodau'r elusen, ar unrhyw adeg cyn hynny, ac wrth ddisgwyl ei diddymiad, benderfynu y bydd unrhyw asedau net yr elusen, ar ôl i'r cyfan o'i dyledion a'i rhwymedigaethau gael eu talu, neu ar ôl darparu ar eu cyfer, adeg diddymu'r elusen neu cyn diddymu'r elusen, yn cael eu defnyddio neu eu trosglwyddo mewn unrhyw un o'r ffyrdd canlynol:

(a) yn uniongyrchol ar gyfer yr Amcanion; neu

(b) trwy eu trosglwyddo i unrhyw elusen neu elusennau at ddibenion sy'n debyg i'r Amcanion; neu

(c) i unrhyw elusen neu elusennau i'w defnyddio at ddibenion arbennig sydd wedi'u cynnwys o fewn yr Amcanion.

(2) Yn amodol ar unrhyw benderfyniad aelodau'r elusen, gall cyfarwyddwyr yr elusen ar unrhyw adeg cyn, ac wrth ddisgwyl ei diddymiad, benderfynu y bydd unrhyw asedau net yr elusen, ar ôl i'r cyfan o'i dyledion a'i rhwymedigaethau gael eu talu, neu ar ôl darparu ar eu cyfer, yn cael eu defnyddio neu eu trosglwyddo pan gaiff yr elusen ei diddymu neu cyn cael ei diddymu:

(a) yn uniongyrchol ar gyfer yr Amcanion; neu

(b) trwy eu trosglwyddo i unrhyw elusen neu elusennau at ddibenion sy'n debyg i'r Amcanion; neu

(c) i unrhyw elusen neu elusennau i'w defnyddio at ddibenion arbennig sydd wedi'u cynnwys o fewn yr Amcanion.

(3) Mewn unrhyw achos ni fydd asedau net yr elusen yn cael eu talu i aelodau'r elusen neu eu dosbarthu ymhlith aelodau'r elusen (ac eithrio i aelod sydd yn elusen ei hun) ac os nad yw cynnig yn unol ag erthygl 60(1) yn cael ei basio gan yr aelodau neu'r cyfarwyddwyr, bydd asedau net yr elusen yn cael eu defnyddio at ddibenion elusennol fel y penderfynir gan y Llys neu'r Comisiwn.

## Dehongli

61. Yn erthygl 7, is-gymal (2) o erthygl 9 ac is-gymal (2) o erthygl 47 ystyr 'unigolyn cysylltiedig' yw:

(1) plentyn, rhiant, ŵyr neu wyres, mam-gu neu dad-cu, brawd neu chwaer y cyfarwyddwr;

(2) gŵr neu wraig neu bartner sifil y cyfarwyddwr neu unrhyw un sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1) uchod;

(3) rhywun sy'n ymgymryd â busnes mewn partneriaeth â'r cyfarwyddwr neu unrhyw unigolyn sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1) neu (2) uchod;

(4) sefydliad sydd wedi'i reoli -

(a) gan y cyfarwyddwr neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1), (2) neu (3) uchod neu

(b) gan ddau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (4)(a), gyda'i gilydd

(5) corff corfforaethol lle mae gan -

(a) y cyfarwyddwr neu unrhyw unigolyn cysylltiedig sydd wedi'i gynnwys o fewn is-gymal (1) i (3) fudd sylweddol, neu

(b) dau unigolyn neu ragor sydd wedi'u cynnwys o fewn is-gymal (5)(a), gyda'i gilydd, fudd sylweddol.

(c) Mae adrannau 350 - 352 o Ddeddf Elusennau 2011 yn gymwys at ddibenion dehongli'r telerau a ddefnyddir yn yr erthygl hon.